Rheolaeth

Meddyliwch Amdani

Mawrth 2007

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud@crc-wmc.org.uk

Cofio Cwrteisi

Mewn arolwg diweddar gan gwmni achub ac adfer Begbies Traynor, honnodd 75% o'r gweithwyr fod cwrteisi yn y gweithle wedi gwaethygu. Roedd 80% ohonyn nhw'n beio technoleg newydd. Cwyn benodol llawer ohonyn nhw oedd bod cydweithwyr yn 'ffidlan' â'u ffonau symudol a'u Blackberries yn hytrach na thalu sylw i sgyrsiau.

Pa mor bwysig yw cwrteisi i chi yn eich trafodion busnes? Ydy'ch staff yn deall yr hyn rydych chi'n ei ystyried yn ymddygiad derbyniol ac yn ymddygiad annerbyniol? Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau eu bod nhw'n trin ei gilydd â pharch?

Cynllunio'r Sylfeini

Dywedodd Sun Tzu, strategwr milwrol Tsieina'r henfyd un tro: "Strategaeth heb dactegau yw'r llwybr arafaf at fuddugoliaeth. Tactegau heb strategaeth yw'r sŵn cyn methiant."

At ba ddull o reoli ydych chi'n tueddu? Ydych chi'n gweithio'n galed i osod y sylfeini a mapio'r amcanion ond yn ymatal rhag penderfynu sut yn union y byddwch chi'n rhoi'r cynlluniau ar waith? Ynteu ydych chi'n rhuthro i mewn yn ddiamynedd gyda llawer o weithredu ond heb dreulio amser yn creu cynllun gweithredu cyffredinol? Sut allwch chi gyrraedd y cydbwysedd sy'n caniatáu ichi gynllunio'n iawn heb golli'ch momentwm?

Dewis y Gorau ac yna Sefyll Draw

Gwnaeth Theodore Roosevelt, arlywydd chwedlonol UDA, y sylw: "Mae gan y gweithredwr gorau y synnwyr i ddewis dynion da, a digon o ymataliaeth i gadw rhag ymyrryd."

Unwaith y byddwch chi wedi penodi pobl i gyflawni swydd, sut fyddwch chi'n barnu faint o ymwneud uniongyrchol y bydd angen ichi ei gael yn eu gwaith? Sut allwch chi sefyll yn ôl yn ddigon pell i'w grymuso i benderfynu drostyn nhw'u hunain, ond heb fod mor bell na allwch chi ruthro i mewn pe byddai rhywbeth yn dechrau mynd o'i le?

Mynd Amdani'n Ddiymdroi

Mewn arolwg diweddar o uwch-reolwyr, dywedodd yr Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol DDI y teimlai mwy na hanner yr ymatebwyr fod eu dyrchafiad i'w swydd bresennol yn eu rhoi dan straen dianghenraid, oherwydd nad oedd eu cyflogwyr yn eu cefnogi wrth iddyn nhw symud i'w rôl newydd.

Os byddwch chi'n dyrchafu pobl dda i swyddi uwch, fyddwch chi'n cymryd yn ganiataol eu bod nhw'n ddigon talentog i 'fynd amdani'n ddiymdroi' a bwrw ymlaen â phethau? Sut allwch chi roi hyder i bobl sydd newydd eu dyrchafu ofyn am gymorth, yn hytrach na brwydro ymlaen mewn perygl o wneud camgymeriadau neu hyd yn oed ladd eu hunain â gwaith?

Y Ffactor Tyngedfennol

Mae rhifyn cyfredol y Sloan Management Review o Sefydliad Technoleg Massachusetts yn cynnwys y sylw canlynol: "Mae penderfynwyr yn aml wedi llafurio mor hir dros benderfyniad nes eu bod yn credu nad oes angen ei esbonio. Gall hyn fod yn annealladwy neu hyd yn oed yn fygythiol i'r rhai na chymerodd ran yn y penderfyniad."

Ydych chi'n euog o lithro i fyd eich hunan wrth wneud penderfyniad o bwys? Waeth pa mor ddoeth yw'r penderfyniad, fyddwch chi'n treulio amser yn rhagweld sut y bydd eraill, nad ydyn nhw mor gyfarwydd â chi â'r sefyllfa, yn ei weld? Oni ddylai pob penderfyniad da ddod gyda chynllun cyfathrebu da?

Rhywbeth Da i'w Ddarllen

Dyma lyfr da i'w ddarllen tra'n yfed eich coffi yn y bore – "The Starbucks Experience" gan Joseph A Michelli. Mae'r llyfr hwn yn disgrifio sut mae'r cwmni wedi troi rhywbeth mor syml â chwpanaid o goffi yn frand byd-eang hynod lwyddiannus. Byddwch yn dysgu am bum egwyddor eang y cwmni, un bennod i bob un, sy'n gwbl hanfodol i lwyddiant y sefydliad. Mae gan y llyfr neges bwerus ac mae'n ddifyr i'w ddarllen. Nawr, sut ydych chi'n hoffi'ch coffi?

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth